

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

CA(3)-09-11

CA578 : Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2011

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol er mwyn i berson sicrhau darpariaeth o rai gwasanaethau gofal cymdeithasol. Wrth wneud hynny, maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004. Y gwasanaethau dan sylw yw'r rheini y byddid yn eu darparu o dan y deddfiadau gofal cymunedol a grybwyllir yn adran 46(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Lechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, i ofalwyr o dan adran 2 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 neu wasanaethau o dan adran 17 o

Ddeddf Plant 1989 (darparu gwasanaethau i blant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill).

Materion technegol: craffu

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1.Y gair Cymraeg a ddefnyddir o fewn y Rheoliadau hyn am "'surrogate" yw "'lladmerydd", sydd, o'i gyfieithu, yn golygu dehonglydd, dirprwy neu eiriolwr, yn hytrach na "'surrogate". "O fewn y cyd-destun y mae "'surrogate" yn ymddangos yn y rheoliadau, ymddengys y byddai eiriolwr yn derm mwy addas i'w ddefnyddio.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft).

2.Mae rheoliad 9 paragraff (4) (a) o'r fersiwn Saesneg o'r rheoliadau hyn yn datgan y caiff yr awdurdod cyfrifol, gyda'r cydsyniad sy'n ofynnol, wneud taliadau o dan adran 57(1A) o Ddeddf Lechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ("Deddf 2001") "i S ("y person addas") er mwyn sicrhau ar gyfer P ("y person Rhagnodedig") ddarpariaeth o wasanaeth perthnasol y mae P o dan rwymedigaeth i'w gael, ond mae'r fersiwn Gymraeg yn datgan y caiff yr awdurdod cyfrifol, o dan yr un amgylchadau, gyda'r cydsyniad sy'n ofynnol, wneud taliadau o dan adran 17A (1) o Ddeddf 1989 ("y Ddeddf Plant") neu adran 57 (1A) o Ddeddf 2001. Canlyniad y ddarpariaeth hon yw na fyddai'r fersiwn Saesnaeg yn caniatáu taliadau i berson sy'n rhiant sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl, person anabl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, na phlentyn anabl 16 neu 17 oed.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft).

3. Mae rheoliad 11 paragraff (6) o'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at adran 57 (1A) o Ddeddf 2001 at ddibenion gwneud taliadau uniongyrchol ond nid yw'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at ddim ond paragraff (1) o reoliad 11 ac nid i adran 57 (1A) o Ddeddf 2001. Er bod paragraff (1) o'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at adran 57 (1A) o Ddeddf 2001, mae'n gwneud hynny yng nghyd-destun ei wneud yn ddarostyngedig i baragraff (5) sy'n ymwneud â chyfradd y taliad sy'n ymwneud ag ôl-ofal. Felly, mae'r fersiwnau'n wahanol iawn i'w gilydd.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft).

4. Mae rheoliad 12 paragraff (5) yn y testun Saesneg yn cyfeirio at amodau ym mharagraff (4) sy'n ei gwneud yn ofynnol na ddylai talai (ymysg pethau eraill) sicrhau'r gwasanaeth perthnasol gan berson penodol; a rhaid rhoi gwybodaeth i'r awdurdod cyfrifol lle nad yw rheoliad 12 paragraff (5) yn y testun Cymraeg yn cyfeirio at yr amodau ym mharagraff (4).

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft).

5. Mae rheoliad 12 paragraff (2) (c), a rheoliad 13 paragraff (3) (c) o'r testun Saesneg yn rhestru personau sy'n byw ar yr un aelwyd â P at ddibenion taliad gan y personau ar gyfer sicrhau gwasanaeth i ddiwallu anghenion P. Fodd bynnag, nid yw rheoliad 12 paragraff (2) (c), a rheoliad 13 paragraff (3) (c) o'r testun Cymraeg yn cyfeirio at bersonau sy'n byw ar yr un aelwyd. Y cyfan a wna'r fersiwn Gymraeg yw cyfeirio ac yna restru personau sydd â pherthynas benodol â P. Mae'r ddwy fersiwn yn wahanol iawn gan y bydd y fersiwn Saesneg yn berthnasol i bersonau sy'n byw ar yr un aelwyd â P ond nid yw'r fersiwn Gymraeg mor gyfyngedig â hyn.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg

yr offeryn neu'r draft).

6. Mae rheoliad 17 paragraff (2) o'r ddwy fersiwn yn wahanol yn y modd y meant yn cyfeirio at P. Mae'r fersiwn Saesneg yn nodi "that a responsible authority must review the making of direct payments under section 57 (1) of the 2001 Act where the responsible authority reasonably considers, on the basis of information given by any person, that P falls within section 57 (5A) of that Act". Mae rheoliad 17 paragraff (2) o'r fersiwn Gymraeg yn nodi "Rhaid i awdurdod cyfrifol adolygu'r arfer o wneud taliadau uniongyrchol o dan adran 57 (1) o Ddeddf 2001 os yw'r awdurdod cyfrifol o'r farn, yn rhesymol, ar sail gwybodaeth a roddir gan unrhyw berson, nad yw P yn dod o fewn adran 57 (5A) o Ddeddf honno", sydd yn golygu yn Saesneg "that a responsible authority must review the making of direct payments under section 57 (1) of the 2001 Act where the responsible authority reasonably considers, on the basis of information given by any person, that P does not fall within section 57 (5A) of that Act".

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r draft).

7. Mae rheoliad 19 paragraff (6) o'r testun Saesneg yn cyfeirio at "direct payments under section 57 (1A)" lle mae rheoliad 19 paragraff (6) o'r testun Cymraeg y cyfeirio yn unig at "taliadau o dan adran 57(1) o Ddeddf 2001". Ni chaiff y gair "direct" ei adlewyrchu yn y testun Cymraeg.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r draft).

8. Mae rheoliad 19 paragraff 6 (a) o'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at y buddiolwr fel person rhagnodedig lle mae rheoliad 19 paragraff 6 (a) o'r fersiwn Gymraeg yn datgan "os yw'r yn berson rhagnodedig" nad yw'n darllen yn gywir. Ymddengys mai'r bwriad oedd iddo ddarllen "os yw'n berson rhagnodedig" neu "os yw'r buddiolwyr yn berson rhagnodedig".

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r draft).

9. Mae rheoliad 10 paragraff (2) o'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at yr awdurdod cyfrifol yn penderfynu beth yw ystyr person rhagnodedig. Mae rheoliad 10 paragraff (2) o'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at "P" yn hytrach na'r person rhagnodedig o fewn yr un cyd-destun. Mae diffiniadau gwahanol o berson rhagnodedig a "P" yn rheoliad 2.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol; a Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r draft).

10. Mae Atodlen 3 yn cyfeirio at rheoliad 21 fel y rheoliad sy'n perthyn i'r Atodlen hon. Fodd bynnag, nid oes rheoliad 21 o fewn y rheoliadau hyn. Y rheoliad perthnasol yw rheoliad 20.

((Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

11. Mae atodlen 3 o'r fersiwn Saesneg o'r rheoliadau hyn yn rhoi teitl anghywir i "Orchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau I Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005" y mae'n ceisio ei ddirymu. Y teitl cywir i'r rheoliadau hyn yw "The Civil Partnership Act 2004 (Consequential Amendments to Subordinate Legislation) (Wales) Order 2005."

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

12. Mae atodlen 2 paragraff (f) ac atodlen 1 paragraffau (d) ac (e) yn cyfeirio at adrannau 41, 51 a 52 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, sydd wedi cael eu diddymu gan adrannau 303 (d) (i), 332, atodlen 37, rhan 7 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

13. Mae atodlen 1 paragraff (g) yn cyfeirio at adran 1 o'r ddeddf Prisoners and Criminal Proceedings (Scotland) Act 1993, lle nad oes y fath adran yn bodoli.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

14. Mae atodlen 1 paragraff (f) ac atodlen 2 paragraff (g) yn cyfeirio at adrannau 228 i 230 o'r ddeddf Criminal Procedure (Scotland) Act 1995, pan nad yw'r adrannau hyn yn bodoli. Mae adran 228 wedi cael ei diddymu gan y ddeddf Criminal Justice and Licensing (Scotland) Act 2010, adran 14 (2), atodlen 2, paragraffau (1) ac (17). Nid yw adrannau 229 a 230 yn bodoli.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

15. Mae atodlen 2 paragraff (c) o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at atodlen 4 o'r ddeddf Criminal Procedure (Scotland) Act 1995, pan nad oes atodlen o'r fath yn bodoli.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

16. Mae atodlen 2 paragraff (h) yn cyfeirio at adrannau 22 a 26 o'r ddeddf Prisons (Scotland) Act 1989 pan mae'r ddwy adran wedi cael eu diddymu gan y ddeddf Prisoners and Criminal Proceedings (Scotland) Act 1993, adran 47 (3), atodlen 7, rhan I.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol).

Rhagoriaethau: craffu

Ni fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol o dan Reol Sefydlog 15.3.

Cynghorwyr Cyfreithiol Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol Mawrth 2011

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

1. – 9. Caiff pwyntiau adrodd 1 i 9 eu derbyn. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu llunio deddfwriaeth sy'n diwygio'r pwyntiau hyn ar y cyfle cyntaf, a beth bynnag o fewn tri mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

10. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod mân wall teipograffyddol yn y pennawd ymyl i Atodlen 3 yn y Rheoliadau ac mae wedi ei fodloni y gellid ei gywiro wrth gyhoeddi.

11. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod mân wall teipograffyddol / gwall clerigol yng nghorff Atodlen 3 i'r Rheoliadau ac mae wedi ei fodloni y gellid ei gywiro wrth gyhoeddi.

12. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod y cyfeiriadau o fewn Atodlen 1, paragraffau (ch) a (d) ac Atodlen 2, paragraff (dd) i'r Rheoliadau yn gyfeiriadau at adrannau 41, 51 a 52 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol 2000, sydd wedi ei diddymu. Er hynny, yr oedd yn angenrheidiol cynnwys cyfeiriad ar yr adrannau a ddiddymwyd ac a ddiddymwyd gydag arbedion (yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003) gan y gallai personau barhau i fod yn ddarostyngedig i rwymedigaethau i dderbyn triniaeth yn unol â'r darpariaethau sydd wedi eu diddymu ond y mae eu heffaith wedi eu cadw. Gan hynny, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod diwygiad i'r Rheoliadau yn ofynnol yn yr achos hwn.

13. Mae'r Llywodraeth wedi ei bodloni bod adran 1 o Ddeddf Carcharorion a Gweithdrefnau Troseddol (yr Alban) 1993 mewn grym. Mae'n ymwneud â rhyddhau carcharorion byrdymor, hirdymor a charcharorion am oes. Gan hynny, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod diwygiad i'r Rheoliadau yn ofynnol yn yr achos hwn.

14. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod adrannau 228 i 230 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) wedi eu diddymu. Er hynny, yr oedd yn angenrheidiol cadw cyfeiriad at y darpariaethau oherwydd gallai personau barhau i fod yn ddarostyngedig i orchymynion a wnaed o dan yr adran hon a gafodd eu gwneud cyn 1 Chwefror 2011 (gweler OSA 2010/413). Pe baem yn dileu'r cyfeiriad at yr adrannau hyn byddai canlyniad nas bwriadwyd i'r ddeddfwriaeth oherwydd byddai personau sy'n ddarostyngedig i orchymyn (sy'n parhau i fod yn effeithiol) o dan y darpariaethau hyn â hawl i gael taliad uniongyrchol yn uniongyrchol groes i fwriad y polisi. Gan hynny, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod diwygiad i'r Rheoliadau yn ofynnol yn yr achos hwn.

15. Mae'r Llywodraeth wedi ei bodloni bod Atodlen 4 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) mewn grym. Gan hynny, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod diwygiad i'r Rheoliadau yn ofynnol yn yr achos hwn.

16. Mae'r Llywodraeth wedi ei bodloni bod adran 22 o Ddeddf Carchardai (yr Alban) 1989 mewn grym ac nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod diwygiad i'r Rheoliadau yn ofynnol yn yr achos hwn.

Mae adran 26 o Ddeddf Carchardai (yr Alban) 1989 wedi ei diddymu gydag arbedion. Mae'r adran yn cyfeirio at bersonau a garcharwyd am oes ac a ryddhawyd efallai yn ddarostyngedig i ofyniad eu bônt yn derbyn triniaeth. Pe baem yn dileu'r cyfeiriad hwn byddai canlyniad nas bwriadwyd i'r ddeddfwriaeth oherwydd byddai personau sy'n ddarostyngedig i orchymyn sy'n parhau i fod yn effeithiol, er gwaethaf diddymu adran 26, â hawl i gael taliad uniongyrchol yn uniongyrchol groes i fwriad y polisi. Gan hynny, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod diwygiad i'r Rheoliadau yn ofynnol yn yr achos hwn